

Hygyrchedd

Mae Gŵyl Chwedleua Beyond the Border wedi ymrwymo i sicrhau bod pob cynulleidfa yn gallu cael mynediad i'n gŵyl.

Tîm bychan ydyn ni, a gyda chostau cynyddol cynnal digwyddiadau eleni byddwn yn ceisio bod yn glir beth allwn ni ei gynnig ar gyfer yr ŵyl eleni, ond hefyd beth na allwn ni eich helpu i'w wneud. Cofiwch roi gwybod i ni sut y gallwn roi cymorth i hwyluso eich ymweliad â'r ŵyl. Rydym am allu gwneud yr hyn allwn ni o fewn ein hadnoddau. Efallai na fyddwn yn gallu gwneud rhai pethau eleni, ond fe fyddem yn hoffi datblygu ar gyfer gŵyl 2025. Cysylltwch â ni ar ein cyfeiriad e-bost a rhif ffôn isod.

Yn yr adrannau isod rydym yn amlygu'r hyn yr ydym yn gwybod y gallwn roi cymorth i chi ei wneud eleni yn yr ŵyl a rhannu â chi beth sydd ddim yn hygyrch ar safle'r ŵyl yn Ninefwr.

Gallwch gael gwybod beth yr ydym yn bwriadu ei wneud dan – Safle'r Ŵyl isod ar y dolenni neu lawrlwythwch fersiwn lawn ar ffurf PDF.
Hygyrchedd PDF

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni
info@beyondtheborder.com

Gallwch hefyd adael neges llais ar 02921 660501 ond cofiwch nad oes rhywun ar y llinell hon yn barhaus ac efallai y bydd oedi cyn cysylltu'n ôl â chi.

A wyf yn gymwys i gael tocyn am ddim i gydymaith/cynorthwydd/ 2 am bris 1?

Rydych yn gymwys i wneud cais am docyn am ddim i gydymaith ddod gyda chi os ydych wedi prynu eich tocyn eich hun ac y gallwch dderbyn eich bod yn derbyn unrhyw un o'r dilynol:

- Cerdyn Access gyda symbol +1 (ar gyfer tocyn cydymaith) a/neu symbol Pellter neu Gadair Olwyn (ar gyfer tocynnau cerbyd).
<https://www.accesscard.org.uk/>
- Llythyr cadarnhad yn dangos eich bod yn derbyn elfen "Byw Dyddiol" (ar gyfer tocynnau cydymaith) a/neu'r elfen "Mynd o Gwmpas"/"Symudedd" (ar gyfer tocynnau cerbyd) PIP neu DLA.
- Llythyr yn cadarnhau eich bod yn derbyn Lwfans Gweini.
- Llythyr cadarnhau eich bod yn dangos y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
- Dwy ochr eich Bathodyn Glas (ar gyfer tocynnau cerbyd yn unig).
- Tystiolaeth cofrestru nam difrifol ar y golwg.
- Tystiolaeth o ddiagnosis bod ar y sbectrum awtistig.
- Llythyr gan feddyg neu weithiwr meddygol proffesiynol arall yn cadarnhau na fedrech fynychu'r ŵyl ar eich pen eich hun (ar gyfer tocyn cydymaith) a/neu bod gennych anableded neu gyflwr meddygol sy'n ei

gwneud yn ofynnol i chi ddefnyddio maes gwersylla neu faes parcio hygyrch (ar gyfer tocynnau cerbyd).

- Os ydych yn byw yng Nghymru, efallai y byddwch am ystyried ymuno â'r cynllun HYNT. Dysgwch ragor am y cynllun am ddim hwn yng Nghymru.

I archebu eich tocyn cydymaith, archebwch eich tocyn eich hun ar-lein dros y ffôn. Gallwch anfon yr wybodaeth hon atom ymlaen llaw neu ddoed â thystiolaeth gyda chi a dull adnabod gyda llun pan fyddwch yn casglu eich tocynnau yn yr ŵyl.

I archebu eich tocyn cydymaith, archebwch eich tocyn eich hun ar-lein dros y ffôn. Gallwch anfon yr wybodaeth hon atom ymlaen llaw neu ddoed â thystiolaeth gyda chi a dull adnabod gyda llun pan fyddwch yn casglu eich tocynnau yn yr ŵyl. Os oes gennych gwestiynau, y ffordd fwyaf effeithiol o gysylltu â ni yw drwy info@beyondtheborder.com. Gallwch hefyd adael neges llais ar 02921 660501 ond gan nad oes staff ar y llinell bob amser, gall fod oedi cyn cysylltu'n ôl a chi.

Perfformiadau i'r Byddar a'r Trwm eu Clyw yn 2023

Cyhoeddir Manylion y Rhaglen yn Chwefror 2023 ynghyd â chyfieithwyr BSL.

Mynediad i Safle Maes yr Ŵyl

Byddwn yn gweithio i sicrhau, o archebu eich tocyn i adael y safle, y bydd y profiad yr ŵyl Beyond the Border fwyaf hygyrch erioed.

- Mae'r fynedfa i'r ŵyl ar y briffordd. Mae'r meysydd parcio a safle'r ŵyl ar laswellt. Mae'r fynedfa i gerbydau i fyw ynddynt ar briffordd ac ardal o darmac. Mae maes yr ŵyl yn faes o laswellt gydag ardaloedd bryniog. Mae rhai llwybrau graean a tharmac yn arwain at ran arall o Ddinefwr gan gynnwys Tŷ Newton, y Coetir a'r Castell. Cofiwch y gall y tir fynd yn fwdlyd mewn tywydd gwlyb – yn neilltuol yng Nghymru!
- Mae mynedfa'r ŵyl ar ben llechwedd wrth ymyl y briffordd, gan fynd i lawr yn raddol at ardaloedd prif bebyll yr ŵyl. Mae'r gwersyll ar waelod y llechwedd.

Er bod y rhan fwyaf o faes yr ŵyl yn wastad, gall natur fryniog naturiol yr ardal fod yn rhwystr i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn llaw a'r rhai â nam difrifol ar eu gallu i symud. Gall cadeiriau olwyn trydan ymdopi â'r rhan fwyaf o ardaloedd, ond gall y tir fod yn eithaf anwastad mewn manau.

Maes Parcio a Man i Ollwng Teithwyr

- Byddwn yn darparu manau parcio hygyrch wedi eu dynodi. Mae hyn yn ymyl y fynedfa i Faes yr Ŵyl. Gallwch gyrraedd a gadael yn ystod y penwythnos a dychwelyd ar unrhyw amser os ydych yn aros oddi ar y safle yn lleol.

- Bydd man i ollwng teithwyr yn agos at flaen yr ŵyl os ydych am ollwng rhywun wrth giât yr ŵyl.
- Os bydd arnoch angen help i fynd o'r maes parcio i'r gwersyll a maes yr ŵyl, rhowch wybod i ni ymlaen llaw.

Y Maes Gwersylla

- Mae'r gwersyll ar waelod maes yr ŵyl ac mae 5 munud o waith cerdded oddi wrth y fynedfa. Mae llechwedd graddol o'r gwersyll at brif safle'r ŵyl.
- Oherwydd natur tir y gwersyll, efallai y byddwch am ystyried aros ar y safle cerbydau i fyw ynddynt os oes gennych eich cerbyd i fyw ynddo eich hun neu chwilio am lety arall yn agos at yr ŵyl. Mae argymhellion am wefannau ar ein tudalen Llety Lleol.
- Bydd gennym rai Cynorthwyrwyr Mynediad yn helpu yn yr ŵyl eleni, rhowch wybod i ni ymlaen llaw os bydd arnoch angen help i fynd o fynedfa'r safle i'r gwersyll.
- Bydd toiledau hygyrch o gwmpas y safle. Yn anffodus ni allwn ddarparu cawodydd hygyrch.
- Os bydd arnoch angen man gwefru 24 awr wedi ei orchuddio i wefru batris cadeiriau, rhowch wybod i ni ymlaen llaw.

Safle Cerbydau i Fyw Ynddynt

- Mae'r safle Cerbydau i Fyw Ynddynt ar wahân i'r gwersyll a gellir mynd iddo ar y briffordd. Bydd hyn waith 5 – 10 munud o gerdded o brif fynedfa'r ŵyl. Cofiwch nad oes modd cysylltu trydan na dŵr at y cerbydau.
- Byddwn yn darparu toiledau hygyrch ar y safle cerbydau i fyw ynddynt. Bydd cawodydd ond eto, yn anffodus, ni fyddwn yn gallu darparu cawodydd hygyrch
- Bydd gennym rai Cynorthwyrwyr Mynediad yn helpu yn yr ŵyl eleni, rhowch wybod i ni ymlaen llaw os bydd arnoch angen help i fynd o fynedfa'r safle i'r gwersyll.

SAFLE'R WŶL

- Byddwn yn darparu arwyddion hygyrch ym mhob rhan o safle'r ŵyl a'r maes gweryslla
Byddwn yn rhoi gwybodaeth ar lwybrau hygyrch drwy safle'r ŵyl a'r maes gweryslla.
Os bydd arnoch angen gwefru eich sgwter symudedd, rhowch wybod i ni ymlaen llaw.
- Byddwn yn darparu storfa neilltuol ar gyfer meddyginiaeth.
- Mae'r rhan fwyaf o leoliadau ar brif safle'r ŵyl sydd ar laswellt, ond bydd rhai perfformiadau oddi ar y safle, fel teithiau stori, y coetir a'r castell.

Nid yw rhai o'r teithiau hyn yn hawdd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn neu'r rhai â symudedd gwael. Byddwn yn nodi ar raglen yr ŵyl pa deithiau stori a pherfformiadau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn ond cofiwch sôn wrthym am eich anghenion er mwyn i ni allu rhoi'r cyngor gorau.

Er bod y rhan fwyaf o faes yr ŵyl yn wastad, gall natur fryniog naturiol yr ardal fod yn rhwystr i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn llaw a'r rhai â nam difrifol ar eu gallu i symud. Gall cadeiriau olwyn trydan ymdopi â'r rhan fwyaf o ardaloedd, ond mae'r tir yn eithaf anwastad mewn mannau.

Perfformiadau:

- Bwriadwn gael mwy o BSL nag erioed o'r blaen a chyflwyno disgrifiad sain
- Byddwn yn darparu mannau i gadeiriau olwyn ym mhob lleoliad, sydd yn farcîs a phebyll.
- Argymhellwn fod yr holl ddigwyddiadau chwedleua yn addas ar gyfer rhai gyda nam ar eu golwg gan nad yw'r rhan fwyaf o sioeau yn dibynnu ar bropiau neu ddyluniad set a byddwn yn annog ein holl chwedleuwyr i gyflwyno disgrifiadau sain fel rhan o'u perfformiad neu ddarparu disgrifwyr sain.

Bwyd ac Arlwyo

- Mae Beyond the Border yn disgwyl y bydd mwy na 3000 o bobl ar safle'r ŵyl trwy'r penwythnos yn 2023.
- Bydd amrywiaeth o stondinau a bariâu ar y safle, yn gwerthu bwyd at bob dant a gofynion dietegol.
- Ar sail ein profiad yn y gorffennol nid yw'r ciwiau yn neilltuol o hir.

Hyfforddiant Staff:

Bydd staff, stiwardiaid a gwirfoddolwyr penodol yn cael hyfforddiant anabledd.

- Bydd gennym Gynorthwywyr Mynediad dynodedig fydd yn rhoi cymorth i gynulleidfaedd anabl. Os oes arnoch angen cymorth rhwch wybod i ni ymlaen llaw.
- Rydym yn gweithio gyda'n partner swyddfa docynnau newydd, Canolfan Celfyddydau Taliesin, i wneud y broses o archebu tocyn mor hygyrch â phosibl.

Mynediad i wybodaeth:

- Byddwn yn darparu gwybodaeth mewn nifer o fformatau i sicrhau fod gwybodaeth am yr ŵyl a'r safle mor hygyrch ag sydd modd.
- Gallwn ddarparu rhaglenni a mapiau'r ŵyl mewn print bras os gofynnwch am hynny
- Gallwn ddarparu rhaglen sain i'r ŵyl a fydd ar gael ar-lein.
- Bydd Map a rhaglen yr ŵyl ar gael fis o leiaf cyn i'r ŵyl ddechrau.

Yn Nhŷ Newton, Dinefwr mae

Toiledau wedi eu haddasu y tu mewn ac yn y dderbynfa ymwelwyr

Mae'r gerddi yn rhannol hygyrch gyda llwybr llydan lefel isel i lyn y felin.

Mae mynediad ar ramp wrth y fynedfa i Tŷ Newton a lifft newydd i roi mynediad i'r llawr cyntaf i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mae cadeiriau olwyn ar gael ar gyfer safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Nhŷ Newton ond mae'n rhaid eu harchebu ymlaen llaw. Cysylltwch ag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Dinefwr ar 01558824512 [01558824512](tel:01558824512)

Mynediad i fannau eraill yn Beyond the Border a Dinefwr

- Nid yw rhai o'r lleoliadau hyn yn hawdd i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn neu'r rhai â symudedd gwael. Byddwn yn nodi ar raglen yr ŵyl pa deithiau stori a pherfformiadau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn a'r rhai â symudedd gwael.

Mae'r tiroedd yn rhannol hygyrch gyda llwybr byrddau gwastad hir at bwll y felin.

- Mynediad i Gastell Dinefwr

Beth allwn ni ddim ei wneud ar safle'r ŵyl

- Nid ydym yn caniatáu parcio wrth ymyl eich pabell. Gallwn sicrhau bod eich cerbyd yn cael ei barcio yn ein maes parcio dynodedig a gallwn eich helpu i gludo eich eiddo. Rhowch wybod i ni ymlaen llaw os bydd arnoch angen help i drosglwyddo eich eiddo o fynedfa'r safle i'r gwerysll.
- Gyda'r safle Cerbydau i Fyw Ynddynt, gallwch barcio cerbyd wrth ymyl eich cerbyd byw ynddo gan fod hwn yn wersyll ar wahân i'r prif wersyll ar faes yr ŵyl.

- Nid ydym yn darparu system neidio'r ciw ar gyfer dod i mewn i'r wyl nag ar gyfer y stondinau arlwyo. Rydym yn argymhell y bydd yn brysur rhwng 11am-6pm, 10am-2pm ddydd Sadwrn a dydd Sul.
- Nid ydym yn darparu nac yn llogi bygis na chadeiriau olwyn yn yr wyl. Gallwn helpu i gludo eich eiddo pan fyddwch yn cyrraedd gyda thryciau a helpu i'ch cludo chi i'r gwersyll ac i adael y digwyddiad. Rhowch wybod i ni ymlaen llaw os bydd arnoch angen help i drosglwyddo eich eiddo o fynedfa'r safle i'r gwersyll.

Llety Hygyrch yn Lleol

Gan weithio gyda Thîm Twristiaeth Cyngor Sir Gaerfyrddin rydym wedi cael gwybod bod yr eiddo canlynol yn addas i'r rhai sydd am aros yn agos at safle'r wyl ag angen cyfleusterau hygyrch.

Llety addas i gadeiriau olwyn ger Llandeilo: Llety Mieri

Gwefan: <http://www.lletycottages.co.uk/>

Mae ganddynt 3 bwthyn sy'n hygyrch. Mae Llety Mieri oddi ar y B4300.

Ffilm fechan o un o'r bythynnod

Edrychwch ar du mewn y bythynnod- <https://vimeo.com/440984514>

Bwthyn gwyliau Strangwrach

7 milltir o Landeilo

Gwefan – <https://www.holidaycottagewales.com/>

Ystafelloedd hygyrch yn y Plough Rhosmaen

3 milltir o Safle'r Wyl yn Ninefwr

Gwefan: <https://www.ploughrhosmaen.com/stay/disabled-rooms>